Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Fframwaith sicrhau ansawdd

## Ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| Ein rôl | 4 |
| Sut rydym yn sicrhau ansawdd | 6 |
| Gwelliannau i'r fframwaith sicrhau ansawdd | 8 |
| **Rhan un: Cyflawni gwaith sicrhau ansawdd** | **9** |
| Ein rôl | 9 |
| Rôl ein contractwr | 10 |
| Ymateb i bryderon ac ymdrin â chwynion am ein contractwr sicrhau ansawdd, Mott MacDonald | 10 |
| Elfennau sicrhau ansawdd – goruchwylio bydwragedd | 11 |
| Ein hadroddiadau ar waith sicrhau ansawdd | 15 |
| **Rhan dau: Gofynion sefydliadau addysg cymeradwy** | **16** |
| Ymrwymiadau | 17 |
| Gofynion y mae angen darparu tystiolaeth ar eu cyfer | 17 |
| **Rhan tri: Sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd trefniadau dysgu ymarfer** | **22** |
| Gofynion ar gyfer dysgu ymarfer diogel ac effeithiol | |
| **Rhan pedwar: Ymateb i bryderon ym maes addysg nyrsio a bydwreigiaeth** | **26** |
| Sut rydym yn ymateb i bryderon | 27 |
| Rhestr Termau | 33 |



# Cyflwyniad

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yw'r rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth i Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Ein prif ddiben yw diogelu cleifion a'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig (DU) drwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd mewn modd effeithiol a chymesur.

Mae gennym gyfrifoldeb i ddeall a dehongli'r cyd-destun strategol ym mhob un o'r pedair gwlad o fewn y DU er mwyn pennu safonau yn unol ag addysg ac ymarfer ym mhob awdurdodaeth.

Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (y Gorchymyn) yn diffinio ein rôl wrth addysgu a hyfforddi nyrsys a bydwragedd. Rydym yn pennu safonau addysg a hyfforddiant, yn cadw cofrestr o'r rhai sy'n cyrraedd y safonau hyn, ac yn cymryd camau pan amheuir addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer. Drwy wneud hyn yn dda, rydym yn hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn nyrsys a bydwragedd.

Gall darparwyr addysg uwch a hyfforddiant wneud cais i gyflwyno rhaglenni sy'n galluogi myfyrwyr i gyrraedd y safonau hyn. Ar hyn o bryd mae 80 o sefydliadau addysg cymeradwy sy'n cynnig rhaglenni addysg nyrsio a bydwreigiaeth ac mae tua 1,000 o raglenni cymeradwy. Rhaglenni addysg cyn cofrestru yw'r rhan fwyaf o'r rhaglenni a reoleiddir gennym (o ran nifer y myfyrwyr).[1]

1 *Y safonau cyn-gofrestru yw'r Safonau Addysg Nyrsio Cyn-Gofrestru* (NMC, 2010) *a'r Safonau ar gyfer Addysg Bydwreigiaeth Cyn-Gofrestru* (NMC, 2009).

Rydym hefyd yn cymeradwyo rhaglenni ôl-gofrestru amrywiol.2

Mae ein hamcanion ar gyfer y fframwaith sicrhau ansawdd yn cynnwys y canlynol:

- Tryloywder: fel corff cyhoeddus, mae'n briodol egluro'r hyn a wnawn a pham.
- Eglurder: am ein rôl ni a chyfrifoldebau eraill.
- Defnyddioldeb: rydym am ddarparu adnoddau gwell i'r rhai sy'n ymwneud ag addysg er mwyn eu helpu i gyrraedd ein safonau.
- Atebolrwydd: rydym yn croesawu eich adborth ar ba un a yw ein hymarfer yn cyfateb i'r dull gweithredu a nodwyd gennym.
- Gwelliant: bydd ein fframwaith yn newid dros amser er mwyn ymateb i ffactorau cyd-destunol a pherfformiad y rhai sy'n destun gwaith sicrhau ansawdd.

Rydym hefyd yn cyhoeddi llawlyfr sicrhau ansawdd[3] mewn cydweithrediad â'n contractwyr sicrhau ansawdd, Mott MacDonald, sy'n nodi'n fanwl ein prosesau sicrhau ansawdd, yn bennaf ar gyfer y rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag addysg nyrsio a bydwreigiaeth.

## Ein rôl

### Addysg

Mae ein deddfwriaeth yn diffinio ein rôl wrth addysgu a hyfforddi nyrsys a bydwragedd. Mae'n caniatáu i ni sefydlu safonau addysg a hyfforddiant sy'n cynnwys y 'deilliannau y mae angen eu cyflawni gan yr addysg a'r hyfforddiant hynny'. Mae hefyd yn ein galluogi i gymryd camau priodol i fodloni ein hunain bod y safonau a'r gofynion hynny yn cael eu bodloni. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo darparwyr addysg a rhoi statws sefydliad addysg cymeradwy (SAC) cyn cymeradwyo eu rhaglenni addysg.

Rydym yn sicrhau bod rhaglenni addysg cyn cofrestru yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr gyrraedd y safonau cymhwysedd sydd eu hangen i ymuno â'n cofrestr. Rydym hefyd yn sicrhau bod rhaglenni ar gyfer nyrsys a bydwragedd sydd eisoes wedi cofrestru â ni yn cyrraedd safonau sy'n gysylltiedig â rolau a swyddogaethau penodol.

Rydym yn pennu gofynion ar gyfer sefydliadau addysg cymeradwy. Dyma'r gofynion sydd eu hangen i gyflwyno rhaglenni sy'n cyrraedd ein safonau. Mae'n rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy gyrraedd yr holl safonau cyn y gallant gyflwyno rhaglenni. Fodd bynnag, gallwn argymell gwelliannau a gwneud gwaith dilynol i weld pa un a weithredwyd ar yr argymhellion hyn.

2 Ar hyn o bryd, y safonau ôl-gymhwyso yw: Safonau ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd (NMC, 2014); Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer (NMC, 2008); Safonau ar gyfer addasu i raglenni bydwreigiaeth (NMC, 2007); Safonau medrusrwydd ar gyfer nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (NMC, 2004); Safonau medrusrwydd ar gyfer nyrsys a bydwragedd sy'n rhagnodi (NMC, 2006); Safonau ar gyfer addysg ac ymarfer arbenigol (NMC, 2001).

3 www.nmc.mottmac.com/Portals/0/Nov%202016%20updates/QA_Handbook_A4%20version_Final_V2_20Dec2016.pdf?ver=2016-12-20-144157-027

Safonau trothwy yw ein safonau ar gyfer rhaglenni, sy'n golygu eu bod naill ai'n cael eu cyrraedd neu beidio. Mae hyn yn angenrheidiol i'n swyddogaethau rheoleiddio gan fod yn rhaid i ni gael sail i'r modd y gwneir penderfyniadau ynghylch pa un a ddylid caniatáu i raglenni ymuno â'r gofrestr neu gael eu tynnu oddi arni. Fodd bynnag, pan fyddwn yn cymeradwyo rhaglenni gallwn benderfynu eu bod yn cyrraedd y safonau'n rhannol a phennu amodau gorfodol. Felly, rhaid i'n gwaith monitro nodi'n glir pa un a yw ein safonau'n parhau i gael eu cyrraedd.

Sefydliadau addysg cymeradwy sy'n gyfrifol am reoli ansawdd o ddydd i ddydd mewn partneriaeth â phartneriaid lleoliadau ymarfer sy'n cynnig profiad 'ymarferol' o ymarfer i fyfyrwyr. Ymhlith partneriaid lleoliadau ymarfer mae ysbytai, meddygfeydd, gwasanaethau iechyd cymunedol a chartrefi gofal neu unrhyw leoliad arall lle y darperir ymarfer nyrsio neu fydwreigiaeth.

Rheoleiddiwr proffesiynol ydym yn hytrach na rheoleiddiwr addysgol. Nid yw'n rhan o'n cylch gwaith i fynd y tu hwnt i'n safonau i ddilysu safonau academaidd. Cyfrifoldeb y darparwyr eu hunain yw gwneud hynny drwy eu prosesau sicrhau ansawdd mewnol eu hunain a phrosesau sicrhau ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

Fodd bynnag, rydym yn cynnal safbwynt polisi'r DU mai proffesiynau mynediad lefel gradd yw nyrsio a bydwreigiaeth ac felly rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy feddu ar bwerau dyfarnu graddau neu allu cael gafael ar y pwerau hynny drwy sefydliadau dyfarnu graddau eraill.

Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU sefydlu rôl gofal newydd yn Lloegr, a elwir yn nyrs gyswllt. Ym mis Ionawr 2017, cytunodd ein Cyngor i gais gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd i fod y rheoleiddiwr ar gyfer y rôl newydd hon. Byddwn yn pennu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant nyrsys cyswllt ac yn y dyfodol byddwn yn cymeradwyo rhaglenni nyrsys cyswllt. Bydd rhagor o wybodaeth am ddatblygiad ar gael ar wefan NMC.

Mae'r rhaglen strategol addysg a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2016 yn mynd rhagddo, gan ganolbwyntio ar brif feysydd adolygu safonau addysg a hyfforddiant wrth ddatblygu fframwaith addysg newydd, cyflawni adolygiad annibynnol o waith sicrhau ansawdd addysg a datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ei argymhellion, ac ymgysylltu mor eang â phosibl â'n rhanddeiliaid ar y pynciau hynny.

- Y Fonesig Athro Jill Macleod Clark sydd wedi bod yn brif arweinydd prosiect Nyrs y Dyfodol i ddatblygu'r safonau hyfedredd drafft ar gyfer nyrsys cofrestredig ac mae wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ledled y DU.
- Mae prosiectau sydd bellach wedi cyrraedd adeg ymgynghoriad cyhoeddus, a fydd yn cau ym mis Medi 2017, yn cynnwys y safonau hyfedredd newydd ar gyfer nyrsys cofrestredig, y safonau fframwaith drafft ar gyfer addysg a hyfforddiant, gofynion drafft ar gyfer dysgu ac asesu, gofynion rhaglen drafft ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru a gofynion rhaglen drafft ar gyfer rhagnodi gan nyrsys a bydwragedd ac rydym hefyd yn ymgynghori ar fabwysiadu fframwaith cymhwysedd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ar gyfer pob rhagnodwr fel ein safonau . Mae digwyddiadau ymgysylltu pellach wedi cael eu cynnal ledled pedair gwlad y DU i gefnogi'r gwaith hwn a chodi ymwybyddiaeth ohono. Rhagwelir y caiff y safonau hyn eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2018 a

bydd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu yn cael eu cynnal i gefnogi sefydliadau addysg cymeradwy a phartneriaid lleoliadau ymarfer drwy'r newidiadau.

- Yr Athro Mary Renfrew yw prif arweinydd prosiect Bydwraig y Dyfodol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddechrau drafftio'r safonau hyfedredd yn y dyfodol ar gyfer bydwragedd cofrestredig, gyda'r nod o ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus arnynt yn 2019.
- Mae'r adolygiad annibynnol o waith sicrhau ansawdd addysg wedi cael ei gwblhau ac mae opsiynau ac argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor. Mae'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu yn dilyn cyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2017 yn mynd rhagddo ac rydym yn bwriadu cyfathrebu'n effeithiol â'r holl randdeiliaid yngln â newidiadau a therfynau amser arfaethedig.

## Sut rydym yn sicrhau ansawdd

### Diogelu'r cyhoedd

Rydym yn diogelu'r cyhoedd drwy sicrhau ansawdd addysg a'r broses o oruchwylio bydwragedd drwy wneud y canlynol:

- sicrhau bod y rhai sy'n ymuno â'r gofrestr yn gallu cyrraedd y safonau a bennir gennym ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol
- sicrhau bod pawb sy'n ymwneud ag addysg a'r broses o oruchwylio bydwragedd, gan gynnwys myfyrwyr, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, yn gwybod sut a phryd i godi pryderon,
- sicrhau bod sefydliadau addysg cymeradwy neu awdurdodau goruchwylio lleol yn gweithredu'n gyflym ac yn effeithiol pan fydd cwestiynau'n codi ynghylch addasrwydd myfyriwr neu fydwraig gofrestredig i ymarfer.

### Rheoleiddio 'cyffyrddiad cywir'

Rydym yn rheoleiddio o fewn fframwaith a bennwyd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol.[4] Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn diffinio egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir, sef bod yn gymesur, yn gyson, yn benodol, yn dryloyw, yn atebol ac yn ystwyth. Mae'r NMC wedi cyflawni rheoleiddio cyffyrddiad cywir yn gyson drwy gyrraedd y safonau penodol ar gyfer addysg drwy gydol bywyd y fframwaith hwn.

### Canolbwyntio ar ganlyniadau

Rydym yn canolbwyntio ar ddeilliannau addysg fel ffordd o gael sicrwydd bod y cyhoedd wedi'u diogelu yn hytrach nag ar nodi sut y dylai'r deilliannau hynny gael eu cyflawni.

Mae pedwar prif reswm pam ein bod yn canolbwyntio ar ddeilliannau.

Budd y cyhoedd – mae diogelu'r cyhoedd yn deillio o ofal diogel ac effeithiol.

Meithrin proffesiynoldeb aeddfed – rydym am rymuso addysgwyr nyrsio a bydwreigiaeth (mewn lleoliadau addysg uwch ac ymarfer) i wneud penderfyniadau hyddysg am y ffyrdd mwyaf effeithiol o gyrraedd ein safonau.

4 www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/standards/standards-of-good-regulation.pdf?sfvrsn=6

Galluogi arloesedd – rydym yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym ac mae sicrhau bod addysgwyr nyrsio a bydwreigiaeth yn gallu arwain a chyfrannu'n ddiogel at ffyrdd newydd o ddarparu gofal iechyd o fudd i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau.

Awdurdod – mae gennym gylch gwaith statudol i bennu safonau ond mater i addysgwyr yw penderfynu sut y dylent gael eu cyrraedd.

### Dull seiliedig ar risg

Mae gennym ddull seiliedig ar risg o ymdrin ag addysg. Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod gwaith sicrhau ansawdd addysg yn canolbwyntio'n fwy ar agweddau ar ddarpariaeth lle y rhagwelir neu y gwyddys bod risg, gan gyfeirio'n benodol at leoliadau ymarfer wrth gyflwyno rhaglenni
- hyrwyddo adroddiadau eithrio (hynny yw, hunanadrodd pryderon wrth iddynt godi) ar gyfer sefydliadau addysg cymeradwy
- sefydlu prosesau ar gyfer ymateb i bryderon.

Fodd bynnag, nid yw ein gweithgarwch sicrhau ansawdd yn seiliedig yn gyfan gwbl ar risg. Rydym yn derbyn hunanadroddiadau and yn monitro sefydliadau addysg cymeradwy fel rhan o gylch adolygu.

### **Cynnwys rhanddeiliiad**

Wrth sicrhau ansawdd addysg, rydym yn cynnwys nyrsys a bydwragedd, myfyrwyr, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr ac addysgwyr nyrsio a bydwreigiaeth (mewn lleoliadau addysg uwch ac ymarfer) er mwyn llywio ein penderfyniadau am ansawdd.

Mae ein gwaith yn y maes hwn yn cynnwys y canlynol.

- Rydym yn parhau i atgyfnerthu gofynion i ddarparwyr addysg gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wrth gynllunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni.
- Rydym yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â myfyrwyr a'r rhai sy'n ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf gan eu bod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am addysg ac ymarfer.
- Rydym yn parhau i ddibynnu ar addysgwyr nyrsio a bydwreigiaeth mewn sefydliadau addysg cymeradwy a lleoliadau ymarfer i wneud y penderfyniadau cywir am safonau myfyrwyr. Maent yn rhoi adborth gwerthfawr i ni am y modd y caiff ein safonau eu cymhwyso yn ymarferol.
- Mae aelodau'r tîm addysg yn mynychu cyfarfodydd allanol i gymryd rhan mewn trafodaethau polisi addysg ar lefel pedair gwlad.
- Rydym wedi cydweithio â sefydliadau addysg cymeradwy ar adrodd eithriadol yn ddiweddar. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 50% yn nifer yr hunanadroddiadau eithriadol a dderbyniwyd eleni o gymharu â 2015-16, gyda sefydliadau addysg cymeradwy yn rhoi sicrwydd yngln â sut y caiff materion a risgiau eu rheoli yn lleol.
- Rydym wedi gwella ein perthynas â rheoleiddwyr proffesiynol a systemau eraill. Mae ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr yn arwain cyflogwyr at ein gwaith ym maes sicrhau ansawdd addysg ac mae'r Uned Gwybodaeth Reoliadol yn cyfrannu at y broses o roi gwybod am wybodaeth am risgiau a chamau lliniaru. Mae hyn yn hyrwyddo ein hymrwymiad i sicrhau dull rhagweithiol a chymesur o ddelio â risg.

## Gwelliannau i'r fframwaith sicrhau ansawdd


Caiff gwelliannau i'n fframwaith eu llywio gan y canlynol:

- barn rhanddeiliaid gan gynnwys myfyrwyr, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr
- adborth gan y rhai sy'n destun gwaith sicrhau ansawdd – sefydliadau addysg cymeradwy a darparwyr lleoliadau ymarfer
- safbwyntiau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol
- gwaith gyda rheoleiddwyr eraill
- datblygiadau amlwg yn y sector iechyd a'r sector addysg
- cyd-destun y broses o sicrhau ansawdd addysg ym mhedair gwlad y DU
- adolygiad o'r modd y mae safonau'n cydymffurfio â gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth
- amrywiadau yn natur a maint gweithgarwch sicrhau ansawdd wrth i baratoadau ar gyfer model newydd o sicrhau ansawdd gael eu gweithredu.

Yn unol â newidiadau deddfwriaethol Adran 60 i'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001) a ddaeth i rym eleni, mae pob agwedd ar sicrhau ansawdd yn ymwneud â goruchwylio bydwreigiaeth wedi cael ei dileu o'r fframwaith. O ganlyniad, mae pob un o raglenni paratoi goruchwylwyr bydwragedd (RhPGB) yr NMC wedi'u dirwyn i ben, a chysylltwyd â phob sefydliad addysg cymeradwy yn gofyn iddo ddiwygio ei ddogfennaeth fewnol yng ngoleuni'r newidiadau hyn, o ganlyniad i dynnu nifer o'r Rheolau a safonau i fydwragedd (2012) a'r safonau RhPGB yn ôl.



# Rhan un: Cyflawni gwaith sicrhau ansawdd




## Ein rôl

Mae ein rôl yn cynnwys:

- pennu polisi lefel uchel ar gyfer sicrhau ansawdd
- comisiynu a goruchwylio proses sicrhau ansawdd effeithiol
- datblygu a defnyddio gwybodaeth o waith sicrhau ansawdd i ddiogelu'r cyhoedd

- rhannu gwybodaeth o waith sicrhau ansawdd yn briodol ag eraill
- defnyddio gwybodaeth gan eraill yn effeithiol er mwyn llywio gwaith sicrhau ansawdd
- defnyddio ein tystiolaeth o waith sicrhau ansawdd i ddylanwadu ar gyd-destun strategol addysg nyrsio a bydwreigiaeth er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd
- cynnwys rhanddeiliaid mewn addysg.

## Rôl ein contractwr

Rhoddwyd y gwaith gweithredol o sicrhau ansawdd addysg ar gontract allanol i Mott MacDonald, sy'n gwneud y canlynol:

- recriwtio, hyfforddi a rheoli perfformiad ein hadolygwyr sicrhau ansawdd
- amserlennu a threfnu digwyddiadau sicrhau ansawdd
- cyhoeddi a diweddaru dogfennaeth sy'n rheoli prosesau sicrhau ansawdd gan gynnwys y llawlyfr sicrhau ansawdd
- cynnal a gwella'r porth sicrhau ansawdd
- rheoli'r broses o gyflwyno adroddiadau ar brosesau sicrhau ansawdd sefydliadau addysg cymeradwy
- darparu a chadw data yn ymwneud â sefydliadau addysg cymeradwy
- cyflwyno adroddiadau i ni ar y modd y cyflawnir y contract sicrhau ansawdd

Mae Mott MacDonald yn cyflawni ein gweithgaredd gweithredol sicrhau ansawdd am y bumed flwyddyn.

## Ymateb i bryderon ac ymdrin â chwynion am ein contractwr sicrhau ansawdd, Mott MacDonald

Byddwn yn ymchwilio i bryderon a godir am ein contractwr sicrhau ansawdd ac yn gweithredu arnynt lle y bo angen. Byddwn yn sicrhau yr ymdrinnir â phryderon a chwynion mewn modd teg a chyson.

Nid yw o fewn ein cylch gwaith i ystyried cwynion am benderfyniadau adolygwyr sicrhau ansawdd sy'n ymgymryd â gweithgarwch sicrhau ansawdd.

### Proses

Dylai'r unigolyn neu sefydliad sy'n gwneud cwyn wneud pob ymgais i ddatrys ei gyn neu bryder yn uniongyrchol â'n contractwr sicrhau ansawdd cyn rhoi gwybod i ni am y cwyn.

Pan fyddwn yn derbyn cwyn ffurfiol, byddwn yn ei chydnabod yn ffurfiol o fewn dau ddiwrnod gwaith os bydd enw a manylion cyswllt yr achwynydd yn hysbys. Byddwn hefyd yn rhoi adborth ar y ffordd yr ymdriniwyd â'r gyn o fewn 20 diwrnod gwaith.

# Elfennau sicrhau ansawdd – goruchwylio bydwragedd

## Rôl yr awdurdod goruchwylio lleol

Mae'r ffordd rydym yn sicrhau ansawdd addysg yn seiliedig ar b'un a yw darparwyr rhaglenni yn cyrraedd ein safonau addysg. Mae hyn yn sicrhau bod pob sefydliad addysg cymeradwy yn gyfarwydd â'r mathau o dystiolaeth y mae angen iddo eu cyflwyno er mwyn dangos ei fod yn parhau i fodloni ein gofynion.

Ein nod yw lleihau'r baich ar sefydliadau addysg cymeradwy drwy barhau i gymryd rhan mewn digwyddiadau sicrhau ansawdd ar y cyd â sefydliadau addysg cymeradwy a/neu gyrff rheoleiddio eraill lle y bo'n bosibl, ond rydym yn gwneud hynny gan nodi ein priod rolau yn glir.

Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg cymeradwy wneud y canlynol:

- sicrhau y caiff rhaglenni eu cymeradwyo cyn i fyfyrwyr gofrestru
- icrhau uniondeb a chywirdeb y wybodaeth a gofnodir ar y gofrestr
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd ac adroddiadau eithrio o ansawdd ar amser.

## Gwneud cais am statws SAC

Mae'n rhaid i sefydliad addysg uwch sy'n gwneud cais i redeg rhaglen a gymeradwywyd gan yr NMC gael statws sefydliad addysg cymeradwy (SAC) cyn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer eu rhaglenni addysg. Ni all rhaglen redeg nes bod ein proses gymeradwyo wedi cadarnhau eu bod wedi cyrraedd y safonau SAC.

- Mae'n rhaid i'r sefydliad hysbysu'r NMC yn ysgrifenedig, gan amlinellu cynnig sy'n cynnwys y canlynol:
- y rhesymeg dros y cynnig SAC a'r ffordd arfaethedig o gyflwyno'r rhaglen.
- tystiolaeth bod adnoddau ar waith i ategu'r cynnig
- manylion cymorth ehangach (er enghraifft partneriaethau â sefydliadau cyflogwyr, darparwyr lleoliadau ymarfer, comisiynwyr addysg a chymorth lefel uwch (er enghraifft Prif Swyddogion Nyrsio))
- niferoedd arfaethedig o fyfyrwyr, dyddiadau dechrau, meysydd nyrsio (lle y bo'n briodol) a dadansoddiad o nifer y myfyrwyr ar gyfer pob rhaglen
- amserlen ffurfiol ar gyfer pob agwedd ar y cynnig gan gynnwys darpariaeth fwriadedig rhaglenni yn y dyfodol.

Unwaith y byddwn wedi derbyn sicrwydd yn ymwneud â'r wybodaeth a nodir uchod byddwn yn cynnal ein gwiriadau rhagarweiniol. Yna byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gyda'n contractwr sicrhau ansawdd, Mott MacDonald, a fydd yn trefnu ymweliad cymeradwyo SAC. Unwaith y bydd statws SAC wedi'i roi, gall sefydliadau fynd ymlaen i wneud cais i gymeradwyo rhaglen. Mae canllawiau ar y broses hon ar gael ar ein gwefan yn: www.nmc.org.uk/education/what-we-expect-of-educational-institutions/applying-for-approval/

### Cymeradwyo ac ail-gymeradwyo rhaglen

Unwaith y bydd sefydliad addysg uwch wedi cael statws SAC gall wneud cais i ddarparu rhaglen cyn cofrestru. I wneud hyn mae'n rhaid iddynt hysbysu'r NMC yn ysgrifenedig yn nodi cynnig. Mae manylion ar gael ar ein gwefan yn: www.nmc.org.uk/education/what-we-expect-of-educational-institutions/applying-for-approval/

Yn dilyn adolygiad o'r cynnig a'r gwiriadau sicrhau ansawdd rhagarweiniol byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gyda'n contractwr sicrhau ansawdd, Mott MacDonald a fydd yn arwain sefydliadau addysg cymeradwy drwy gam nesaf y broses. Fel rhan o'r gweithgaredd hwn bydd yn ofynnol i'r SAC gyflwyno dogfennaeth sy'n dangos sut mae'n bwriadu cyrraedd ein safonau.

Yna trefnir digwyddiad cymeradwyo rhaglen sy'n bodloni gofynion sicrhau ansawdd mewnol y sefydliad addysg cymeradwy yn ogystal â'n gofynion ni ac unrhyw gorff rheoleiddio arall dan sylw.

Bydd y tîm cymeradwyo yn cynnwys adolygwyr sy'n nyrsys ac yn fydwragedd a gallant ddod o leoliadau addysg ac ymarfer. Ni fydd ganddynt unrhyw gysylltiad diweddar â'r sefydliad addysg cymeradwy dan sylw. Mae pob tîm yn cynnwys adolygwyr sy'n meddu ar y wybodaeth arbenigol berthnasol – gelwir hyn yn 'sylw dyledus'.

Bydd yr adolygydd yn cyflwyno adroddiad ar y rhaglen sy'n nodi a yw ein safonau'n cael eu cyrraedd, eu cyrraedd yn rhannol (gydag amodau ac argymhellion) neu nad ydynt yn cael eu cyrraedd.

Os pennir amodau, rhaid i'r rhain gael eu bodloni cyn i'r rhaglen gael ei chymeradwyo a'i chyflwyno'n ffurfiol. Mae'r tîm adolygu sicrhau ansawdd yn argymell a yw'r rhaglen yn cyrraedd ei safonau. Rydym yn gyfrifol am gymeradwyo, ailgymeradwyo neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl.

Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg cymeradwy gymryd cyfrifoldeb am y canlynol:

- gwneud ceisiadau amserol am gymeradwyaeth ac ailgymeradwyaeth
- gwneud cais am ddigwyddiadau cymeradwyo pan fyddant yn teimlo bod rhaglenni'n barod.

### Addasu rhaglenni

Gall sefydliadau addysg cymeradwy gyflwyno addasiadau i raglenni cymeradwy. Mae'r ffordd y caiff y rhain eu rheoli yn dibynnu ar raddau'r newidiadau a'r broses, fel y nodir yn y llawlyfr sicrhau ansawdd.

Mae datblygiadau diweddar sydd wedi golygu bod angen addasu rhaglenni yn cynnwys cyflwyno prentisiaethau gradd nyrsio yn Lloegr. Mae manylion pellach a chanllawiau ar y broses ar gyfer gwneud cais i ddarparu rhaglen prentisiaeth gradd nyrsio ar gael ar ein gwefan yn: www.nmc.org.uk/education/what-we-expect-of-educational-institutions/nursing-degree-apprenticeship/.

Yn ogystal, mae ymgorffori llwybrau dysgu seiliedig ar waith a mentrau sydd wedi'u harwain gan NHS England / Health Education England wedi arwain at fwy o gynnydd yn amrywiaeth yr addasiadau sy'n cael eu prosesu a'u cymeradwyo. Rydym yn disgwyl gweld cynnydd mewn addasiadau o'r fath yn y dyfodol.

### Cymeradwyaeth

Gall rhaglenni a gymeradwyir ac a gyflwynir yn y DU hefyd gael eu cyflwyno y tu allan i'r DU gyda'r sefydliad addysg cymeradwy priodol yn y DU yn gyfrifol am ansawdd. Nid yw'r broses gymeradwyo yn caniatáu i raglen gael ei chymeradwyo yn y DU i'w chyflwyno'n gyfan gwbl y tu allan i'r DU.

Gofynnwn am dystiolaeth arbennig o gryf i ddangos bod y sefydliad addysg cymeradwy yn sicrhau ansawdd y broses o gyflwyno'r rhaglen ym mhob lleoliad y tu allan i'r DU. Mae'n rhaid i hyn gynnwys tystiolaeth o fwriad strategol, adnoddau, risgiau a rheolaethau, a chydberthnasau strategol a gweithredol gyda phartneriaid lleoliadau, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Gweler Cylchlythyr yr NMC 14/2006.[5] Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: QAteam@nmc-uk.org.

### Estyniadau rhaglen

Gall sefydliad addysg cymeradwy fel arfer wneud cais am estyniad o hyd at 12 mis o'r dyddiad y daw'r rhaglen i ben. Ystyrir estyniadau fesul achos. Dylid anfon pob cais am estyniad i: QAteam@nmc-uk.org a dylid rhoi rhesymau manwl dros sail y cais. Weithiau gallwn ddarparu estyniadau i raglenni presennol i leihau'r baich ar sefydliadau addysg cymeradwy os bydd safonau yn cael eu hadolygu neu ar fin newid.

Rydym wedi cynnig estyniadau hwy na'r 12 mis cyffredin i bob rhaglen nyrsio a bydwreigiaeth cyn cofrestru, a nifer o raglenni ôl-gofrestru gan gynnwys rhaglenni rhagnodi, mentora a dychwelyd i ymarfer, i hwyluso cysondeb â datblygiad safonau addysg a hyfedredd diwygiedig, a lleihau'r beichiau ar sefydliadau addysg cymeradwy yn ystod cyfnod o newid ehangach.

### Dod â rhaglen i ben

Gall sefydliad addysg cymeradwy ddewis dod â rhaglen gymeradwy i ben ar unrhyw adeg ar ôl cymeradwyaeth. Ar ôl penderfynu hyn drwy ei weithdrefnau mewnol ei hun, dylai ein hysbysu am ei benderfyniad a'i resymeg. Rydym yn disgwyl i sefydliadau addysg cymeradwy ddangos na fydd unrhyw fyfyrwyr, nawr nac yn y dyfodol, o dan anfantais oherwydd y penderfyniad. Yna byddwn yn rhoi'r gorau i'r rhaglen a ni chaniateir i unrhyw fyfyrwyr eraill gofrestru. Efallai y byddwn hefyd yn ceisio dod â rhaglen gymeradwy i ben os na fydd y rhaglen wedi rhedeg ers cael ei chymeradwyo yn wreiddiol. Ni fyddwn yn gwneud hyn heb gyfathrebu â'r sefydliad addysg cymeradwy.

### Hunanadrodd blynyddol

Mae'n rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy gyflwyno adroddiad hunanasesu blynyddol i ni sy'n dangos sut mae eu rhaglenni a gymeradwywyd gan yr NMC yn parhau i gyrraedd ein safonau a bodloni ein gofynion.

5 www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/circulars/2006circulars/nmc-circular-14-2006.pdf www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/circulars/2006circulars/nmc-circular-14_2006-annexe-1.pdf
www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/circulars/2006circulars/nmc-circular-14_2006-annexe-2.pdf

Yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid addysg a chael adborth ganddynt yn gynt yn 2017, rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'r templed hunanadrodd a'r wybodaeth rydym yn disgwyl i sefydliadau addysg cymeradwy ei darparu. Rydym yn disgwyl i sefydliadau addysg cymeradwy gynnwys manylion yngln â sut y caiff cydymffurfiaeth â safonau a gofynion yr NMC ei sicrhau, a sut y caiff materion a phryderon parhaus eu rheoli o hyd. Yn ogystal, rydym yn disgwyl cael ein hysbysu am unrhyw achosion o ymarfer nodedig a all fod yn werth eu rhannu, a gallwn ofyn am wybodaeth benodol bellach drwy gwestiynau thematig a gwerthusol. Rydym yn bwriadu cynnal gweithdy hunanasesu pellach gyda sefydliadau addysg cymeradwy yn yr hydref.

### Adolygiadau monitro

Adolygu yw'r broses a ddefnyddiwn i roi sicrwydd bod sefydliadau addysg cymeradwy yn parhau i gyrraedd ein safonau ar gyfer y rhaglenni a gyflwynir ganddynt. Mae timau adolygu hefyd yn ystyried sut mae sefydliad addysg cymeradwy yn rheoli unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen.

Mae'r adolygiad yn ystyried adroddiad hunanasesu blynyddol y sefydliad addysg cymeradwy a gyflwynir i ni a gwybodaeth o ffynonellau eraill, sy'n cynnwys gwybodaeth am ansawdd neu risg y sefydliad addysg cymeradwy neu ei bartneriaid lleoliadau ymarfer.

Gall fod elfen thematig neu ddaearyddol i gylch adolygu.

Mae timau adolygu yn cynnwys rheolwr-adolygydd, adolygwyr sy'n nyrsys ac yn fydwragedd (lle y bo'n bosibl o leoliadau addysg ac ymarfer) ac aelod lleyg. Caiff adolygwyr sy'n nyrsys ac yn fydwragedd eu dewis yn unol â'r rhaglenni penodol sy'n destun craffu.

Bydd adolygiad bob amser yn ystyried adborth gan fyfyrwyr, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n ymwneud â'r rhaglenni sy'n destun craffu. Nid ydym ar hyn o bryd yn defnyddio myfyrwyr, defnyddwyr gwasanaethau na gofalwyr fel adolygwyr ond rydym yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau addysg cymeradwy eu cynnwys yn llawn mewn adolygiad.

Rhennir canlyniadau drafft adolygiadau â'r darparwr er mwyn cael sylwadau ar ffaith a chaiff adroddiadau terfynol eu cyhoeddi ar ein gwefan.

### Cynlluniau gweithredu

Os bydd sefydliad addysg cymeradwy yn derbyn statws 'nis bodlonwyd' ar draws unrhyw un o'r meysydd risg allweddol, bydd yn ofynnol iddo ddatblygu cynllun gweithredu sy'n dangos camau y bydd yn eu cymryd i ddatrys y risg allweddol a chydymffurfio â'n safonau a'n gofynion. Mae'r templed cynllun gweithredu ar gael ar borth sicrhau ansawdd Mott McDonald.[6] Efallai y bydd y canllawiau[7] ar gwblhau cynllun gweithredu yn ddefnyddiol i sefydliadau addysg cymeradwy.

Byddwn yn cynnal adolygiad bwrdd gwaith neu ymweliad dilynol i adolygu cynnydd wrth gryfhau mesurau rheoli.

6 nmcoms.mottmac.com
7 www.nmc.mottmac.com/Programme-Providers/Monitoring

### Gohebwyr SAC Swyddogol

Mae'n rhaid bod gan bob sefydliad addysg cymeradwy unigolyn a enwir yn ohebydd SAC swyddogol. Rydym yn disgwyl i ohebydd SAC swyddogol wneud y canlynol:

- gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer pob ymholiad yn ymwneud â rhaglen a gymeradwywyd gan yr NMC
- ymgysylltu â ni a rhoi gwybod yn eithriadol am unrhyw risgiau i allu'r sefydliad addysg cymeradwy i gyrraedd ein safonau neu'r amgylchedd dysgu i fyfyrwyr
- ymateb i gais am adroddiad eithriadol o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cais. Dylid anfon yr adroddiadau hyn i exceptional.reporting@nmc-uk.org.
- rhoi enw dirprwy a fydd yn gyfrifol am ymateb i ni yn absenoldeb y gohebydd SAC swyddogol
- rhoi'r manylion cyswllt diweddaraf ar gyfer y gohebydd swyddogol a'i ddirprwy. Dylid anfon diweddariadau i QATeam@nmc-uk.org.

### Bydwragedd arweiniol addysg

Mae bydwragedd arweiniol addysg yn helpu i sicrhau safonau uchel mewn addysg bydwreigiaeth. Mae bydwragedd arweiniol addysg wedi'u lleoli yn y sefydliad addysg cymeradwy sy'n darparu addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru ac wedi'u cyflogi ganddo. Maent yn athrawon bydwreigiaeth profiadol sy'n ymarfer, yn arwain y gwaith o ddatblygu, cyflwyno a rheoli rhaglenni addysg bydwreigiaeth. Dylid anfon unrhyw newidiadau o ran manylion cyswllt ar gyfer bydwragedd arweiniol addysg i'r NMC drwy'r ffurflen ar ein gwefan yn: www.nmc.org.uk/education/lead-midwifery-educators/form-for-new-lmes/

## Ein hadroddiadau ar waith sicrhau ansawdd

Rydym yn cyhoeddi ein holl adroddiadau ar fonitro canlyniadau gwaith sicrhau ansawdd fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau tryloywder a rhannu gwybodaeth.

Rydym wedi gwneud y canlynol:

- cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'n Cyngor ar berfformiad ym maes sicrhau ansawdd, gan gynnwys adroddiadau chwarterol a blynyddol gan Mott MacDonald am y broses o gyflawni'r contract sicrhau ansawdd
- nodi achosion o ymarfer effeithiol o ran ein gweithgarwch sicrhau ansawdd mewn adroddiadau yn y dyfodol
- cyhoeddi adroddiad blynyddol am ganlyniadau ein gweithgarwch sicrhau ansawdd.

### Adroddiadau thematig

Yn ystod 2016-2017, cyflwynodd sefydliadau addysg cymeradwy adroddiadau ar themâu penodol drwy hunanasesu, a gwnaethant archwilio themâu drwy adolygiad er mwyn darparu tystiolaeth am agweddau penodol ar ddiogelwch y cyhoedd. Gofynnwyd i fydwragedd arweiniol addysg ddarparu gwybodaeth bellach am nifer o feysydd pwnc penodol o fewn elfennau dysgu, addysgu ac asesu eu rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru. Bydd y wybodaeth hon yn llywio'r adolygiad o safonau hyfedredd bydwreigiaeth. Caiff ein canfyddiadau ar y themâu hyn eu cynnwys yn ein hadroddiad sicrhau ansawdd blynyddol.[8]

8 www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/midwifery-lsa-reports/nmc-qa-english- annual-report-2016-17.pdf



# Rhan dau: Gofynion sefydliadau addysg cymeradwy

Er y caiff ein rhaglenni eu cyflwyno drwy bartneriaethau rhwng sefydliadau addysg cymeradwy a lleoliadau ymarfer, rydym yn dwyn sefydliadau addysg cymeradwy i gyfrif am reoli ansawdd a risgiau. Mae angen i sefydliadau addysg cymeradwy gyfathrebu'n effeithiol ag uwch reolwyr a chyfarwyddwyr mewn amgylcheddau dysgu ymarfer a fydd yn cymryd cyfrifoldeb am ansawdd dysgu wrth ymarfer. Rhennir gofynion sefydliadau addysg cymeradwy yn ddau gategori.

- Ymrwymiadau y disgwylir i sefydliadau addysg cymeradwy eu gwneud a'u cynnal.
- Gofynion y gellir darparu ac asesu tystiolaeth ar eu cyfer.

## Ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau sy'n ofynnol gan sefydliadau addysg cymeradwy yn cynnwys y canlynol:

1. Sicrhau y caiff rhaglenni eu cymeradwyo a'u bod yn parhau wedi'u cymeradwyo cyn i fyfyrwyr gael eu cofrestru.
2. Rhoi polisi a phrosesau addasrwydd i ymarfer cymeradwy ar waith mewn ffordd drwyadl.
3. Uniondeb a chywirdeb y wybodaeth a gaiff ei lanlwytho ar y gofrestr pan fydd myfyrwyr yn cwblhau rhaglen. Yn dilyn cyflwyniad llwyddiannus i borth Sefydliad Addysg Uwch NMC, mae'n parhau i ddarparu ffordd ddiogel ac effeithiol o lanlwytho cofnodion myfyrwyr i'n cofrestr.
4. Cyflwyno hunanadroddiadau blynyddol o ansawdd ar amser.
5. Hunanadrodd y risgiau sy'n gysylltiedig â darparu addysg a'r camau lliniaru a roddwyd ar waith gan sefydliadau addysg cymeradwy mewn modd amserol.

## Gofynion y mae angen darparu tystiolaeth ar eu cyfer

### Rhaid i sefydliadau ddangos bod diogelu'r cyhoedd wrth wraidd addysg nyrsio a bydwreigiaeth

Rhaid i sefydliadau wneud y canlynol:

- dangos eu hymrwymiad i ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau ansawdd dysgu, addysgu ac asesu mewn lleoliadau academaidd ac ymarfer
- cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ym mhob agwedd ar y gwaith o gynllunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni
- sicrhau diogelwch a lles defnyddwyr gwasanaethau y mae myfyrwyr yn gweithio gyda nhw wrth ddysgu
- sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod sut i godi pryderon a'u huwchgyfeirio a rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau bod ganddynt systemau effeithiol ar waith i ymateb
- sicrhau bod gan nyrsys a bydwragedd sy'n cwblhau rhaglenni sy'n arwain at gofrestru neu gofnod ar y gofrestr y gallu i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

Tystiolaeth sydd ei hangen

- Strategaeth a chynllun gweithredu defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
- Polisi a phrosesau addasrwydd i ymarfer.
- Polisi derbyn myfyrwyr dan 18 oed.
- Polisi a phrosesau codi pryderon a'u huwchgyfeirio.
- Proses ffurfiol o sicrhau bod holl wiriadau angenrheidiol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gwiriadau Protecting Vulnerable Groups (PVG) – Disclosure Scotland yn bodloni ein gofynion.

**Rhaid i sefydliadau ddangos bod eu strategaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth yn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol presennol**

Tystiolaeth sydd ei hangen

- Polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Polisi recriwtio, dethol a derbyn (mae meincnod y sector yn cynnwys cydymffurfiaeth â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn y maes hwn).
- Darpariaeth gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, er enghraifft, gwasanaethau i'r anabl a gwasanaethau cymorth dysgu.

**Rhaid i sefydliadau fod yn agored, yn gywir ac yn deg ym mhob proses ddethol, derbyn, datblygu a chwblhau**

Rhaid i brosesau yn y maes hwn ddangos bod defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a chynrychiolwyr o feysydd ymarfer wedi dylanwadu ar brosesau dethol, derbyn, datblygu a chwblhau ac wedi cyfrannu'n weithredol at y prosesau hynny.

Tystiolaeth sydd ei hangen

- Polisi recriwtio a dethol.
- Polisi derbyn.
- Polisi a phrosesau gwrth-dwyll.
- Polisi a phrosesau Achredu Cyn Dysgu.
- Rheoliadau sicrhau ansawdd prifysgolion, er enghraifft, seilwaith datblygu/cwblhau, fel byrddau arholi/rhaglenni academaidd/dyfarnu.

**Rhaid i sefydliadau ddarparu'r holl adnoddau angenrheidiol i hyrwyddo a chynnal rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth**

Tystiolaeth sydd ei hangen

- Y polisïau a'r prosesau sydd ar waith sy'n dangos bod cymorth i fyfyrwyr mewn lleoliadau academaidd ac ymarfer.
- Gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, er enghraifft, undeb myfyrwyr, neu gymorth i'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol, cwnsela a chymorth mentor.
- Polisi codi pryderon a'u cyfeirio at lefel uwch i fyfyrwyr.
- Polisi codi pryderon a'u cyfeirio at lefel uwch i staff.
- Polisi datblygu staff.
- Polisi ymchwil ac ysgoloriaeth.
- Y polisïau a'r prosesau sydd ar waith i alluogi nyrsys a bydwragedd academaidd i fodloni ein gofynion i dreulio 20 y cant o'u hamser mewn ymarfer drwy weithgareddau darlithio cyswllt, ymchwil neu ddatblygu ymarfer/polisi. (Gweler Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer (SLAiP) (3.3.4, NMC, 2008)).

- Prosesau i sicrhau bod trefniadau ar waith i fonitro cofrestriad gweithredol a sylw dyledus staff academaidd
- Y polisïau a'r prosesau sydd ar waith i alluogi athrawon nyrsio a bydwreigiaeth i gyflawni canlyniadau cam 4 o'r fframwaith datblygu (2.3 SLAiP).

**Rhaid i sefydliadau sicrhau bod ganddynt bolisïau a phrosesau ar waith i ddatblygu a chymeradwyo'r cwricwlwm er mwyn bodloni ein gofynion**

Tystiolaeth sydd ei hangen

- Polisïau a phrosesau ar gyfer cymeradwyo ac ailgymeradwyo rhaglenni a'u hadolygu'n rheolaidd.
- Systemau gwybodaeth myfyrwyr sy'n cofnodi'n gywir gyflawniadau dysgu a'r oriau a gwblhawyd ar gyfer dyfarniad yn ogystal â chymhwysedd i gofrestru.
- Eu bod yn sefydliadau a sefydlwyd i ddarparu addysg nyrsio a bydwreigiaeth.
- Bod polisïau ar waith sy'n hyrwyddo arloesedd, ymchwil ac ysgoloriaeth wrth gyflwyno rhaglenni.
- Bod prosesau ffurfiol ar waith i hwyluso dysgu rhyngbroffesiynol

**Rhaid i sefydliadau sicrhau bod ganddynt bolisi ar waith ar gyfer cyflawni cytundebau lefel gwasanaeth / cytundebau dysgu a datblygu gyda phob partner lleoliadau ymarfer**

Rydym yn cymeradwyo rhaglenni addysg a gyflwynir mewn partneriaeth rhwng sefydliadau addysg cymeradwy ac amryw amgylcheddau lleoliadau ymarfer. Mae hyn yn golygu bod angen i sefydliadau addysg cymeradwy sy'n gwneud cais i gael rhaglen wedi'i chymeradwyo reoli ansawdd a diogelwch y ddarpariaeth ble bynnag y caiff y rhaglen ei chyflwyno.

Tystiolaeth sydd ei hangen

- Cytundebau lefel gwasanaeth / cytundebau dysgu a datblygu gyda phartneriaid lleoliadau ymarfer.
- Ymrwymiad partneriaeth i sicrhau dysgu ymarfer diogel a chefnogol sy'n dangos gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol nyrsys a bydwragedd.
- Polisi a phrosesau ar gyfer neilltuo lleoliadau i fyfyrwyr gan gynnwys prosesau ar gyfer pennu meysydd lleoliadau newydd.
- Cronfa ddata cyfredol o leoliadau.
- Prosesau ar gyfer cynnal archwiliadau addysgol yn unol â'n gofynion.
- Dull strategol a gweithredol o ymdrin â chydymffurfiaeth â SLAiP.
- Polisi a phrosesau ar gyfer uwchgyfeirio pryderon am berfformiad myfyrwyr yn ogystal ag uwchgyfeirio pryderon am lywodraethu clinigol ac ymateb iddynt.
- Ymgysylltu'n ffurfiol â chomisiynwyr addysg a phartneriaid lleoliadau ymarfer.

**Rhaid i sefydliadau sicrhau bod ganddynt strategaeth asesu ddibynadwy a dilys ar waith sy'n dangos ble y caiff addasiadau eu gwneud er mwyn bodloni ein gofynion**

Tystiolaeth sydd ei hangen

- Polisïau a phrosesau o fewn rheoliadau academaidd ar gyfer asesu theori ac ymarfer, er enghraifft, dim meini prawf iawndal ar gyfer asesu.
- Prosesau apeliadau a lliniaru.
- Cydraddoldeb, er enghraifft, asesiad o anghenion dysgu ac addasiadau rhesymol ar gyfer asesu theori ac ymarfer.

**Rhaid i sefydliadau sicrhau bod ganddynt yr holl gyfleusterau ac adnoddau angenrheidiol mewn lleoliadau academaidd ac ymarfer i gefnogi'r broses o gyflwyno rhaglenni cymeradwy**

Tystiolaeth sydd ei hangen

- Adnoddau prifysgolion a lleoliadau.
- Cymysgedd priodol o sgiliau staff. (Noder y caiff hyn ei ddilysu fel mater o drefn yn ystod gweithgarwch sicrhau ansawdd.)
- Athrawon sy'n meddu ar gymwysterau priodol a chyfredol, athrawon ymarfer a mentoriaid.
- Cyfleusterau llyfrgell â'r gallu i gael gafael ar sylfeini tystiolaeth ymchwil nyrsio a bydwreigiaeth perthnasol.
- Cyfleusterau TGCh â chysylltiadau priodol â meddalwedd ac adnoddau sy'n gysylltiedig ag iechyd.
- Ystafelloedd efelychu sy'n cefnogi cyfleoedd dysgu ac asesu rhyngbroffesiynol.
- Polisi a phrosesau dysgu rhyngbroffesiynol.

**Rhaid i sefydliadau ddangos bod ganddynt strwythurau llywodraethu a sicrhau ansawdd effeithiol**

Bydd hyn yn cadarnhau ymrwymiad ac atebolrwydd sefydliad i ni wrth fonitro ac adrodd ar gyflawniadau academaidd a seiliedig ar ymarfer myfyrwyr.

Cydnabyddwn fod gofynion sicrhau ansawdd sector y mae'n rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy eu bodloni sydd hefyd yn mynd i'r afael â'n safonau a'n gofynion ni. Fodd bynnag, rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy ddangos eu gallu i adrodd ar gyflawniadau myfyrwyr mewn perthynas â deilliannau dysgu academaidd a rhaglenni ymarfer.

Tystiolaeth sydd ei hangen

- Cydymffurfiaeth â chod ansawdd Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch y DU a, lle y bo'n berthnasol, meincnodau pwnc.
- Yr hyn sydd wedi ei gynnwys/eithrio mewn rheoliadau academaidd Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio.
- Polisi a phrosesau cwynion.

- Polisi a phrosesau Erasmus.
- Ymrwymiad Bologna.
- Polisi a phrosesau arholwyr allanol ar gyfer asesiadau theori ac ymarfer.
- Cymeradwyaethau ac adolygiad pum mlynedd, neu adolygiad cyfnodol o raglenni.
- Achrediadau cysylltiedig eraill, er enghraifft, achrediad gan yr Academi Addysg Uwch.
- Trefniadau llywodraethu a rennir â rheoleiddwyr eraill, er enghraifft, cymeradwyo rhaglenni ar y cyd â'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.



# Rhan tri: Sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd dysgu ymarfer

Mae dysgu ymarfer yn rhan annatod o'r gwaith o gyflawni rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth. Disgwylir i sefydliadau addysg cymeradwy a'u partneriaid lleoliadau ymarfer reoli risgiau newydd a rhai sy'n datblygu sy'n effeithio ar ddysgu ac asesu myfyrwyr yn ddiogel.

## Gofynion ar gyfer dysgu ymarfer diogel ac effeithiol

**Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy sicrhau bod ein safonau addysg yn cael eu cyrraedd mewn lleoliadau academaidd ac ymarfer, gan fod 50 y cant o'r dysgu yn digwydd y tu allan i'r sefydliad**

### Gofynion

- Caiff defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr eu hysbysu'n llawn am rôl y myfyriwr yn eu gofal a'i hawl i wrthod gofal gan fyfyrwyr.
- Fel rhan o broses ymsefydlu lleoliad ymarfer, hysbysir myfyrwyr am bwysigrwydd codi pryderon a'u cyfeirio at lefel uwch pan fyddant ar leoliadau ymarfer, yn ogystal â'r broses ar gyfer gwneud hynny. Rhaid sicrhau bod cymorth i fyfyrwyr ar gael at y diben hwn.

**Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy a darparwyr lleoliadau ymarfer gefnogi ac adolygu dysgu ymarfer diogel ac effeithiol yn barhaus ym mhob lleoliad.**

Gofynion

- Mae lleoliadau ymarfer yn darparu amgylcheddau dysgu diogel a chefnogol.
- Caiff proffiliau amgylchedd dysgu lleoliadau ymarfer unigol eu dogfennu a'u diweddaru'n ffurfiol er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu trefnu neu ddyraniadau lleoliadau rhaglen cymeradwy.
- Mae amgylcheddau dysgu ymarfer yn ymrwymedig i roi a chefnogi gofal diogel, effeithiol a thosturiol i bob defnyddiwr gwasanaeth.
- Mae amgylcheddau dysgu ymarfer yn parchu hawliau, urddas, preifatrwydd, cydraddoldeb ac amrywiaeth pob defnyddiwr gwasanaeth a gofalwr.
- Mae sefydliadau addysg cymeradwy a myfyrwyr yn gallu cael gafael ar adnoddau sy'n briodol i leoliadau ymarfer yn ogystal â pholisïau a phrosesau llywodraethu a risg (fer enghraifft, archwiliadau iechyd a diogelwch, diogelu grwpiau sy'n agored i niwed, gweithwyr unigol [y gymuned], asesu risg, cofnodi damweiniau a digwyddiadau).
- Pan fydd myfyrwyr o fwy nag un sefydliad addysg cymeradwy yn cael eu neilltuo i leoliadau unigol, bydd pawb dan sylw yn ymwybodol o'r trefniadau ar y cyd ar gyfer cydymffurfio â SLAiP, archwiliadau addysgol a sicrhau ansawdd ac yn eu deall.
- Caiff archwiliad addysgol o sgiliau clinigol ac amgylcheddau dysgu sy'n seiliedig ar efelychu ei gynnal cyn cefnogi gofal uniongyrchol drwy ddysgu ymarfer sy'n seiliedig ar efelychu ac ni ddylai fod yn fwy na gofynion y rhaglen.

**Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy a phartneriaid lleoliadau ymarfer archwilio amgylcheddau dysgu ymarfer ar y cyd er mwyn cadarnhau'r lefelau gofynnol o oruchwyliaeth a mentoriaeth sydd eu hangen a sicrhau bod profiadau a gynlluniwyd yn cefnogi deilliannau dysgu bwriadedig rhaglenni cymeradwy**

Gofynion

Mae'r archwiliad addysgol:

- Yn llywio'r gwaith o gynnal neu wella profiadau myfyrwyr o leoliadau ymarfer ac yn nodi meysydd o bryder posibl.
- Yn dangos partneriaethau rhwng addysg a dysgu ymarfer.
- Yn seiliedig ar adborth gan fyfyrwyr, mentoriaid a defnyddwyr gwasanaethau fel y bo'n berthnasol.
- Yn cael ei gynnal o leiaf unwaith bob dwy flynedd ac eithrio lle y caiff lleoliadau eu defnyddio i oruchwylio ymarfer nyrsys o dramor sy'n gwneud cais am gofrestriad yn y DU, lle mae angen cynnal archwiliad blynyddol.
- Yn ystyried pob math o ddysgwyr sy'n defnyddio lleoliadau ymarfer unigol.
- Yn cael ei adolygu'n brydlon gan bartneriaid lleoliadau ymarfer os gall digwyddiadau andwyol effeithio ar ddysgu diogel ac effeithiol. Diben hyn yw sicrhau y caiff sefydliadau addysg cymeradwy eu hysbysu mewn modd amserol.

Mae canlyniadau'r archwiliad addysgol:

- Yn nodi'r uchafswm niferoedd ar gyfer pob math o ddysgwyr mewn lleoliadau unigol.

- Yn cadarnhau'r niferoedd y cytunwyd arnynt ar gyfer dyraniadau nyrsys a bydwragedd dan hyfforddiant wrth nodi mathau o ddysgwyr (er enghraifft, nyrsys dan hyfforddiant, myfyrwyr sy'n dychwelyd i ymarfer neu fyfyrwyr ar raglenni nyrsio dramor) a cham y rhaglen (er enghraifft, blwyddyn un, blwyddyn dau, blwyddyn tri) ar unrhyw adeg benodol.
- Yn cadarnhau bod adnoddau ar gael i helpu uchafswm nifer y myfyrwyr a nodwyd i gyflawni deilliannau dysgu penodol ar unrhyw adeg benodol.
- Yn cael eu lledaenu'n briodol ar bob lefel er mwyn dysgu o arfer da a nodi meysydd i'w gwella, pryderon sy'n codi a chamau y cytunwyd arnynt.
- Yn cael eu cymharu ag archwiliadau blaenorol i asesu lefelau gwelliant neu bryderon sy'n codi.
- Yn cynnwys argymhellion sy'n adlewyrchu'r camau priodol sydd eu hangen i reoli risg.
- Yn cadarnhau'r ddarpariaeth ar gyfer ymsefydlu myfyrwyr newydd mewn meysydd newydd yn amserol.
- Yn cofnodi tystiolaeth o gynlluniau gweithredu, gwaith monitro parhaus, canlyniadau dilynol a therfynau amser.
- Yn darparu manylion am sut a phryd y caiff newidiadau i benderfyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn flaenorol eu cyfleu'n weithredol ac yn strategol.

**Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy a phartneriaid lleoliadau ymarfer sicrhau bod digon o adnoddau ar waith i gydymffurfio â SLAiP**

Gofynion

- Mae niferoedd digonol o fentoriaid sy'n meddu ar y cymwysterau priodol, mentoriaid cymeradwyo ac athrawon ymarfer i gefnogi'r niferoedd o fyfyrwyr y cytunwyd arnynt.
- Caiff dogfennaeth archwiliad addysgol ei hadolygu er mwyn croesgyfeirio'n amserol â diweddariadau mentoriaid lleol, adolygiadau bob tair blynedd a chynnal a chadw cofrestrau mentoriaid byw.
- Mae amrywiaeth o systemau adborth yn dylanwadu ar gynnydd myfyrwyr ac yn gwella profiadau dysgu ymarfer.
- Caiff statws ychwanegol myfyrwyr ei gynnal wrth ddarparu gofal.
- Mae rheolaethau tebyg i'r rheini ar gyfer asesiadau sy'n seiliedig ar ymarfer yn sicrhau bod asesiadau o ymarfer sy'n seiliedig ar efelychu yr un mor ddilys a dibynadwy.

**Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy a phartneriaid lleoliadau ymarfer feithrin cydberthnasau effeithiol er mwyn cefnogi dysgu myfyrwyr**

Gofynion

- Caiff myfyrwyr eu paratoi'n dda ar gyfer profiadau dysgu ymarfer.
- Caiff lleoliadau dysgu eu paratoi'n dda ar gyfer myfyrwyr.
- Mae adnoddau dysgu mewn ymarfer yn cefnogi ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae mentoriaid, mentoriaid cymeradwyo ac athrawon ymarfer yn deall y gofynion ar gyfer asesu ymarfer.
- Mae staff o sefydliadau addysg cymeradwy yn cynnal cysylltiadau effeithiol ar lefel leol, gweithredol a strategol er mwyn sicrhau ansawdd yr amgylchedd dysgu, gan gynnwys cyfleoedd rheolaidd i ddeall safbwyntiau ei gilydd ar eu cydweithio.

**Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy a phartneriaid lleoliadau ymarfer nodi a chyfleu risgiau'n gyflym a rheoli risgiau'n effeithiol**

Gofynion

- Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy a phartneriaid lleoliadau ymarfer ddangos dull rhagweithiol y cytunwyd arno o nodi a chyfeirio risgiau at lefel uwch er mwyn cydymffurfio â'n polisi a'n prosesau ar gyfer ymateb i bryderon.
- Mae sefydliadau addysg cymeradwy yn gallu cael gafael ar bolisïau a phrosesau llywodraethu a risg lleoliadau ymarfer (er enghraifft, asesu risg, cofnodi damweiniau a digwyddiadau, adolygu digwyddiadau difrifol, digwyddiadau mawr a systemau Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion).
- Mae partneriaid lleoliadau ymarfer yn cyfeirio ac yn cyfleu risgiau ar y cyd â sefydliadau addysg cymeradwy er mwyn sicrhau y gellir rhoi cynlluniau ar y cyd y cytunwyd arnynt ar waith i ddiogelu myfyrwyr, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
- Defnyddir gwaith monitro, cofnodi a diweddaru cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu (gan gynnwys adborth gan fyfyrwyr a mentoriaid) i lywio canlyniadau'r rhaglen a gwella'r profiad dysgu ymarfer.
- Caiff myfyrwyr eu cefnogi a'u hadleoli'n ddiogel os bydd angen symud myfyrwyr dros dro.
- Rhaid ail-archwilio unrhyw amgylcheddau dysgu ymarfer y symudwyd myfyrwyr ohonynt cyn i unrhyw fyfyrwyr ddychwelyd i'r lleoliadau hynny.



# Rhan pedwar: Ymateb i bryderon ym maes addysg nyrsio a bydwreigiaeth

Ein nod o ran sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth yw sicrhau

y caiff aelodau o'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau sy'n cael gofal gan fyfyrwyr fel rhan o'u haddysg a'u hyfforddiant eu diogelu.

Yn y cyd-destun hwn, caiff pryder ei ddiffinio fel a ganlyn:

- cwyn
- hysbysiad o ddigwyddiad a all effeithio ar ddiogelwch claf a defnyddiwr gwasanaeth, neu
- bryderon am sefydliad sy'n cyflwyno rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth cymeradwy.

Byddwn yn ymateb i bryderon a godir gyda ni yn y ffyrdd canlynol.

- Parhau i hyrwyddo gofynion adrodd eithriadol ar gyfer sefydliadau addysg cymeradwy y tu hwnt i drefniadau adrodd arferol y cytunwyd arnynt.
- Defnyddio ein meini prawf seiliedig ar risg i asesu unrhyw risg i ddiogelwch y cyhoedd yn gywir wrth iddi godi yn sgil cymeradwyo a chyflwyno rhaglenni.
- Trefnu a chynnal ymweliad adolygu a monitro eithriadol penodol nas cynlluniwyd â sefydliad addysg cymeradwy neu amgylchedd lleoliad ymarfer.
- Rhannu gwybodaeth sicrhau ansawdd nyrsio a bydwreigiaeth â meysydd allweddol y sefydliad megis y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr, a'r Uned Gwybodaeth Reoliadol, ac â rheoleiddwyr proffesiynol a rheoleiddwyr systemau eraill.
- Cymryd rhan mewn gwaith goruchwylio traws-reoleiddiol neu uwchgynadleddau risg.
- Ymateb i unrhyw gwynion am sefydliad addysg cymeradwy neu awdurdod goruchwylio lleol.

Mae'r angen i ddiogelu'r cyhoedd yn llywio ein camau gweithredu wrth ymateb i bryderon. Mae ein fframwaith sicrhau ansawdd yn seiliedig ar asesu natur risgiau posibl ochr yn ochr â'r sicrwydd a gawn gan sefydliadau addysg cymeradwy am y ffordd y caiff y risgiau eu rheoli pan fyddant yn codi.

Mae ein hymateb i bryderon yn sicrhau, pan fydd materion yn effeithio ar addysg nyrsio a bydwreigiaeth, fod camau priodol ar waith i ddiogelu'r cyhoedd.

## Sut rydym yn ymateb i bryderon

### Adroddiadau eithriadol gan sefydliadau addysg cymeradwy

Mae sefydliadau addysg cymeradwy yn cyflawni rhaglenni addysgol yn unol â'n safonau addysg. Pan ddaw risgiau i'r amlwg, rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy ymateb yn gyflym er mwyn rheoli risgiau'n briodol. Dylid anfon pob adroddiad eithriadol i: exceptional.reporting@nmc-uk.org.

### Proses

- Pan gaiff risgiau newydd, risgiau sy'n datblygu a risgiau sy'n codi eto eu nodi y tu allan i gyfnodau adrodd arferol, mae'n rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy ein hysbysu am y risgiau hyn. Rydym yn disgwyl i sefydliadau addysg cymeradwy adrodd yn eithriadol ar risgiau a all effeithio ar y gydymffurfiaeth ofynnol â'n safonau addysg. Hefyd, dylid rhoi gwybod yn eithriadol am risgiau a nodwyd gan reoleiddwyr proffesiynol a rheoleiddwyr systemau a all effeithio ar gyrraedd y safonau hyn yn ddiogel. Gallai hyn gynnwys archwiliadau sydd wedi cynhyrchu canfyddiadau andwyol yn arwain at uwch-gynadleddau risg, adroddiadau a chwynion am ddarpariaeth y gwasanaeth, amgylcheddau dysgu ymarfer a diogelwch cleifion.
- Disgwyliwn gael y wybodaeth ganlynol o adroddiadau eithriadol: disgrifiad cryno o'r risg; camau a gymerwyd ar unwaith; cyfrifoldeb unigol a chyfrifoldeb a rennir am y risg a'r camau y bwriedir eu cymryd; a systemau cymorth ychwanegol y bwriedir eu cyflwyno neu sydd ar waith.
- Byddwn yn cydnabod ac yn ymateb i adroddiadau eithriadol o fewn dau ddiwrnod gwaith.

- Byddwn yn asesu'r risg. Bydd unrhyw gamau dilynol sydd angen eu cymryd yn bodloni'r meini prawf seiliedig ar risg a gyhoeddwyd.

### Chwythu'r chwiban

Os caiff pryder ei ddatgan i ni gan drydydd parti ynghylch cyflwyno rhaglen a gymeradwywyd gan yr NMC yn ddiogel ac yn effeithiol, byddwn yn hysbysu'r sefydliad addysg cymeradwy dan sylw o fewn pum diwrnod gwaith er mwyn rheoli'r risg yn lleol lle y bo'n bosibl. Byddwn hefyd yn cysylltu â'r trydydd parti i sicrhau ein bod yn deall y risg a'r wybodaeth yn gywir. Lle y bo'n briodol, byddwn yn ailgyfeirio unrhyw bryderon ynghylch systemau neu ymarfer at ein cydweithwyr addasrwydd i ymarfer a chyswllt cyflogwyr neu reoleiddwyr system pan fo'n briodol gwneud hynny. Mae ein dyletswyddau o ran rheoli a gweithredu ar wybodaeth a ddarperir drwy'r broses chwythu'r chwiban wedi'u cynnwys o fewn Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. Ceir canllawiau pellach ar bolisi chwythu'r chwiban yr NMC a'n rôl wrth ei weithredu ar ein gwefan yn: [www.nmc.org.uk/standards/guidance/raising-concerns-guidance-for-nurses-and-midwives/whistleblowing/](www.nmc.org.uk/standards/guidance/raising-concerns-guidance-for-nurses-and-midwives/whistleblowing/)

### Mesur risg pan gaiff pryderon eu codi am sefydliad addysg cymeradwy a'i bartneriaid lleoliadau ymarfer

Pan gaiff pryder ei godi am y ffordd y caiff rhaglen sefydliad addysg cymeradwy ei chyflwyno, byddwn yn defnyddio meini prawf seiliedig ar risg i asesu unrhyw risg i'r gwaith o gymeradwyo'r rhaglen a diogelu'r cyhoedd yn gywir.

Bydd hyn yn sicrhau bod ein camau gweithredu dilynol a'n camau gweithredu yn y dyfodol yn benodol, yn gymesur, yn gyson, yn deg ac yn dryloyw.

### Gofynion ar gyfer brysbennu risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu

Mae pob maen prawf yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu, canlyniadau a strwythurau adrodd yn erbyn terfynau amser.

### Mân statws – cydweithio

Mae'r sefydliadau addysg cymeradwy a'r partneriaid lleoliadau ymarfer, a'r awdurdodau goruchwylio lleol a'r gwasanaethau mamolaeth, yn rhoi gwybodaeth amserol a diweddariadau parhaus i ni. Dengys hyn fod gan y sefydliadau addysg cymeradwy a'r awdurdodau goruchwylio lleol brosesau sicrhau ansawdd mewnol effeithiol ar waith a'u bod yn rheoli'r sefyllfa yn briodol.

### Statws cymedrol – mae angen rhagor o wybodaeth

Mae angen rhagor o wybodaeth arnom ar ôl cael gwybodaeth am y digwyddiad andwyol neu bryder gwreiddiol a'r modd y mae'r partïon perthnasol yn ymdrin â hyn. Rydym yn ymgysylltu'n ffurfiol â'r sefydliad addysg cymeradwy a rhanddeiliaid allweddol er mwyn deall yn llawn y materion a bod mewn sefyllfa i weithio gyda rhanddeiliaid.

### Prif statws – ymestyn adolygiadau monitro penodol a gynhelir fel mater o drefn

Os oes adolygiadau monitro penodol eisoes wedi'u trefnu, gall fod angen rhaglenni, lleoliadau a gweithgarwch monitro penodol amgen neu ychwanegol er mwyn sicrhau bod ein gwaith sicrhau ansawdd yn drylwyr ac wedi'i dargedu'n effeithiol. Mae hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol i ni bod y safonau addysg yn parhau i gael eu cynnal.

### Statws critigol – cynnal digwyddiad heb ei drefnu

Trefnir ymweliad adolygiad monitro nas cynlluniwyd heb fawr ddim rhybudd. Bydd angen y mesur hwn os bydd digwyddiad andwyol sy'n peri risg i ddiogelwch y cyhoedd, neu os ystyrir od

bod y sefydliad addysg cymeradwy naill ai'n anymwybodol o'r digwyddiad andwyol neu heb roi'r holl gamau angenrheidiol ar waith i reoli'r risgiau sy'n deillio o'r digwyddiad. Hysbysir y sefydliad addysg cymeradwy am ffocws bwriadedig yr adolygiad eithriadol a bydd gan y tîm adolygu gynllun adolygu penodol er mwyn targedu ei weithgarwch sicrhau ansawdd mewn lleoliadau dysgu academaidd a lleoliadau ymarfer.

### Tynnu cymeradwyaeth yn ôl

Yn yr achos eithriadol pan fydd risg i ddiogelwch y cyhoedd neu nid yw'r sefydliad addysg cymeradwy wedi gallu rheoli'r risgiau yn lleol neu ddarparu sicrwydd digonol ar ei allu i gydymffurfio â'n rheolau a'n safonau a darparu addysg ddiogel ac effeithiol, mae tynnu statws SAC a/neu gymeradwyaeth rhaglen yn ôl o fewn ein cylch gwaith cyfreithiol. Dim ond pan fetho pob opsiwn a cham arall y byddai hyn yn digwydd.

## Cynnal ymweliadau adolygiad monitro eithriadol

Gallwn ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau a phryderon difrifol a all arwain at adolygiadau eithriadol o sefydliadau addysg cymeradwy er mwyn ceisio sicrwydd bod ein safonau addysg yn parhau i gael eu cyrraedd. Cymerwyd y diffiniad o ddigwyddiad difrifol o'r Fframwaith Digwyddiadau Difrifol (2015).[10]

### Proses

Byddwn yn gofyn i Mott MacDonald gynnal ymweliad adolygu eithriadol yn ychwanegol at yr ymweliadau adolygiad monitro arferol a drefnwyd. Bydd faint o rybudd a roddir i'r sefydliad addysg cymeradwy a'r amserlenni ar gyfer rhannu adroddiadau yn dibynnu ar ddifrifoldeb y risgiau a gyflwynir a chaiff ei bennu fesul achos.

Oherwydd natur adolygiadau eithriadol a'r ffaith eu bod er budd y cyhoedd, byddwn yn gweld yr adroddiadau cyn iddynt gael eu hanfon i'r sefydliad addysg cymeradwy i wirio cywirdeb ffeithiol fel y gellir nodi unrhyw risgiau ar unwaith a rhoi camau gweithredu priodol ar waith. Ein nod yw rhannu canfyddiadau a chyhoeddi'r adroddiadau terfynol ar ein gwefan cyn gynted â phosibl Pan fydd materion ehangach yn dod i'r golwg sydd y tu allan i'n cylch gwaith, byddwn yn ymdrechu i rannu'r materion ehangach hyn gyda'r sefydliadau priodol.

• Byddwn yn sicrhau dull gweithredu penodol a chymesur os bydd angen cynnal ymweliad adolygu eithriadol ar y cyd â rheoleiddiwr systemau.

• Bydd cwmpas yr ymweliad eithriadol hwn yn dibynnu ar y mater neu'r pryderon a bydd faint o rybudd a roddir yn adlewyrchu'r risg i'r cyhoedd.

• Caiff sefydliadau perthnasol eu hysbysu am yr ymweliad ynghyd â ffocws a chylch gorchwyl yr ymweliad. Caiff cynllun adolygu manwl ei lunio a'i ddosbarthu i'r tîm adolygu a'r sefydliad addysg cymeradwy.

• Os bydd angen cynnal adolygiad ar y cyd o brosesau sicrhau ansawdd sefydliadau addysg cymeradwy, caiff hyn ei drefnu ar y cyd er mwyn lleihau'r baich ar sefydliadau.

• Byddwn yn sicrhau dull gweithredu penodol a chymesur os bydd angen cynnal ymweliad adolygu eithriadol ar y cyd â rheoleiddiwr systemau neu reoleiddiwr proffesiynol.

## Rhoi gwybodaeth am waith sicrhau ansawdd ym maes nyrsio a bydwreigiaeth i gymuned ymarfer ehangach

- Byddwn yn gweithio gyda rheoleiddwyr proffesiynol a rheoleiddwyr systemau eraill yn hytrach nag aros i ddigwyddiad difrifol ddigwydd.
- Byddwn yn rhannu'r holl wybodaeth a gwaith dadansoddi perthnasol o'n gweithgarwch sicrhau ansawdd â rheoleiddwyr proffesiynol a rheoleiddwyr systemau er mwyn cefnogi trefniadau cydweithio traws-reoleiddiol a gwella prosesau ar y cyd ar gyfer diogelu'r cyhoedd.
- Rydym yn parhau i weithio mewn ymateb i risg gyda rheoleiddwyr proffesiynol fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, yn ogystal â'r Comisiwn Ansawdd Gofal.

### Rhannu gwybodaeth

Mae gennym nifer o femoranda cyd-ddealltwriaeth gyda sefydliadau ledled y DU. Mae ein memoranda cyd-ddealltwriaeth yn cwmpasu sut y byddwn yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth â'n gilydd.

Rydym yn adolygu ein memoranda cyd-ddealltwriaeth o bryd i'w gilydd gyda'n partneriaid i wneud yn sir eu bod yn effeithiol ar gyfer ein gwaith gyda'n gilydd. Ar hyn o bryd mae gennym y memoranda cyd-ddealltwriaeth canlynol:

Memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Memorandwm cyd-ddealltwriaeth gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban (SPSO)

Memorandwm cyd-ddealltwriaeth gydag Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Gwladwriaeth Jersey (HSSD)

Memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)

Memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Healthcare Improvement Scotland (HIS)

Memorandwm cyd-ddealltwriaeth gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW/AGIC)

Memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda NHS Education for Scotland (NES)

Memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r Arolygiaeth Gofal

- Er y bydd gan reoleiddwyr proffesiynol brosesau sicrhau ansawdd addysg penodol ar waith, mae'n bwysig hefyd lle y ceir digwyddiadau cymeradwyo rhaglenni ar y cyd, neu lle mae amgylcheddau dysgu ymarfer cyffredin yn cael eu defnyddio, y rhennir gwybodaeth a gwaith dadansoddi data.
- Rydym wrthi'n gweithio gyda rheoleiddwyr proffesiynol eraill er mwyn gwella sianeli cyfathrebu sy'n bodoli eisoes a rhannu gwybodaeth gyffredin a seiliedig ar risg mewn ffordd sy'n diogelu'r cyhoedd.

9 www.nrls.npsa.nhs.uk/report-a-patient-safety-incident/serious-incident-reporting-and- learning-framework-sir

## Cymryd rhan mewn prosesau goruchwylio traws-reoleiddiol, adolygiadau ar y cyd, arolygiadau craffu neu uwch-gynadleddau risg

Mae Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr (ELS) yr NMC yn ategu ein gwaith mewn addysg. Maent yn meithrin cydberthnasau â darparwyr gofal iechyd ac yn ymgysylltu â phartneriaid lleoliadau ymarfer i gael gafael ar wybodaeth ar gyfer rheoli risg i'r profiad dysgu. Byddwn yn cydweithio mewn prosesau goruchwylio traws-reoleiddiol sydd hefyd yn cynnwys mynychu cyfarfodydd grwpiau goruchwylio ac uwch-gynadleddau risg yn bersonol neu gyflwyno gwybodaeth ynddynt. Rydym hefyd yn mynychu adolygiadau ar y cyd ac arolygiadau craffu pan fyddwn yn cael gwahoddiad i wneud hynny. Bydd cymryd rhan yn y digwyddiadau a'r gweithgareddau hyn yn: yddwn yn cymryd rhan mewn prosesau goruchwylio traws-reoleiddiol a all hefyd gynnwys mynychu cyfarfodydd grwpiau goruchwylio ac uwch-gynadleddau risg yn bersonol neu gyflwyno gwybodaeth ynddynt.

Bydd cymryd rhan yn y digwyddiadau a'r gweithgareddau hyn yn:

- sicrhau dull agored a thryloyw o ymdrin â sicrhau ansawdd a gwybodaeth sicrhau ansawdd
- helpu sefydliadau addysg cymeradwy a darparwyr lleoliadau ymarfer i osgoi cyflwyno adroddiadau ailadroddus
- darparu llwybr effeithiol ac effeithlon o ledaenu gwybodaeth a data Sicrhau Ansawdd.
- creu amgylchedd ar gyfer rhannu gwybodaeth ffurfiol ac anffurfiol am ein prosesau sicrhau ansawdd gweithgarwch addysg
- cyfrannu at y broses o uwchgyfeirio materion a phroblemau yn ôl yr angen.

## Ymateb i bryderon a delio â chwynion am sefydliadau addysg cymeradwy

Caiff cwynion neu bryderon am addasrwydd unigolion i barhau ar ein cofrestr eu trin ar wahân gan ein cyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer.[11]

Byddwn yn ymchwilio i bryderon a godir am sefydliadau addysg cymeradwy ac yn gweithredu arnynt lle y bo angen. Byddwn yn sicrhau bod ein gweithdrefn ar gyfer delio â phryderon a chwynion yn deg ac yn gyson.

Nid yw'n rhan o'n cylch gwaith i ystyried cwynion am benderfyniadau academaidd staff mewn sefydliad addysg cymeradwy.

### Proses

- Bydd yr achwynydd wedi gwneud pob ymgais i ddatrys ei gŵyn neu bryder yn uniongyrchol â'r sefydliad addysg cymeradwy cyn i ni ei hystyried/ystyried. Mae hyn yn golygu y gall myfyrwyr gael gafael ar gymorth lleol gan undeb y myfyrwyr a systemau cymorth eraill sydd ar gael o fewn sefydliadau addysg cymeradwy unigol gan ddefnyddio polisi a gweithdrefnau cwynion y sefydliad addysg cymeradwy.

10 Mae manylion y gweithdrefnau ar gael yn www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives
11 www.nmc.org.uk/standards/additional-standards/standards-for-pre-registration-nursing-education

• Pan fyddwn yn derbyn cwyn ffurfiol, byddwn yn ei chydnabod yn ffurfiol o fewn dau diwrnod gwaith. Os bydd enw a manylion cyswllt yr achwynydd yn hysbys, byddwn hefyd yn rhoi adborth ar y ffordd yr ymdriniwyd â'r g□yn.

• Pan fyddwn yn derbyn cwyn ddienw, efallai na fydd yn bosibl i unrhyw gamau pellach gael eu cymryd os nad oes gwybodaeth ddigonol wedi'i rhoi. Disgwyliwn i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â rhaglen gymeradwy a staff academaidd sy'n cyflwyno rhaglen i allu ymddwyn yn agored ac yn gyfrifol wrth godi'r pryder neu'r g□yn yn lleol i ddechrau. Os byddwn yn derbyn cwyn ddienw, byddwn yn cysylltu â'r sefydliad addysg cymeradwy o ran cwrteisi er mwyn rhoi'r cyfle iddo ymateb i'r g□yn.

## Iechyd a Chymeriad

- Mae iechyd a chymeriad yn sylfaenol i addasrwydd i ymarfer fel nyrs neu fydwraig. Mae'n rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy gydymffurfio â'n gofynion iechyd yn ein safonau addysg11 a deddfwriaeth berthnasol mewn perthynas ag anabledd a'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol.
- Mae'n rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a goblygiadau'r ddeddfwriaeth ar ddysgu academaidd ac ymarfer. Gweler Canllawiau ar wneud penderfyniadau ynghylch cymeriad ac iechyd (2015) ein cofrestrydd.

### Proses

- Bydd yr achwynydd wedi gwneud pob ymgais i ddatrys ei gŵyn neu bryder yn uniongyrchol â'n contractwr sicrhau ansawdd cyn i ni ei hystyried/ystyried.
- Pan fyddwn yn derbyn cwyn ffurfiol, byddwn yn ei chydnabod yn ffurfiol o fewn pum diwrnod gwaith os bydd enw a manylion cyswllt yr achwynydd yn hysbys. Byddwn hefyd yn rhoi adborth ar y ffordd yr ymdriniwyd â'r gŵyn.

# Rhestr termau

| | |
|---|---|
| APL | Achredu Dysgu Blaenorol |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| ELS | Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr |
| HCPC | Cyngor Proffesiynol Iechyd a Gofal |
| HEA | Academi Addysg Uwch |
| HEI | Sefydliad addysg uwch |
| LME | Bydwragedd arweiniol addysg |
| MoU | Semorandwm cyd-ddealltwriaeth |
| NMC | Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| PSA | Awdurdod Safonau Proffesiynol |
| PSRB | Corff proffesiynol, statudol a rheoleiddio |
| QA | sicrhau ansawdd |
| QAA | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch |
| RtP | Dychwelyd i ymarfer |
| SAC | Sefydliad Addysg Cymeradwy |
| SIRL | Fframwaith Adrodd am Ddigwyddiadau Difrifol a Dysgu |
| SLAiP | Safonau i gefnogi Dysgu ac Asesu mewn Ymarfer |

Cyhoeddwyd y fframwaith sicrhau ansawdd yn wreiddiol: Mehefin 2013
Diweddarwyd: Medi 2017

Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

23 Portland Place, London W1B 1PZ
**T** +44 20 7333 9333 **F** +44 20 7436 2924
**www.nmc-uk.org**

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru,
Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Ynysoedd

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)